# Pecyn Cyhoeddus

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

14 Mehefin 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) trwy We-Ddarlledu o Bell ar Dydd Gwener, 18 Mehefin 2021 am 1.15 pm i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Gweddi**

**2.** **Ymddiheuriadau**

**3.** **Cadarnhau cofnodion y gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2021 (Tudalennau 3 - 6)**

**4.** **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllaw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. (Tudalennau 7 - 20)**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ar **ddydd Gwener, 12 Chwefror 2021**

**YN BRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: y Cynghorwyr Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a Lynford Thomas

Yn cynrychioli undebau'r Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd), Mrs Alwen Roberts (UCAC)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru; y Parchedig Aled Jones, Undeb yr Annibynwyr; Yr Athro John Tudno Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Aelodau Cyfetholedig: Dr Catrin Williams

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd: Mr Eirwyn Griffiths

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaeth Ysgolion; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(1:00pm-2:25pm)

**1. Gweddïau**
Dechreuodd y Cyfarfod gyda'r Parchedig Aled Jones yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

**2. Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Parchedig Mark Ansell am nad oedd modd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod fod llythyr wedi dod i law oddi wrth Mrs Mary Parry yn dweud fod yn rhaid iddi gamu i lawr o'r pwyllgor yn sgil ei hymrwymiadau gofal plant a gwaith gwirfoddol. Dymunodd yr aelodau yn dda i Mrs Parry yn y dyfodol.

**3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2019 ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2019 yn gywir.

**4. Materion yn codi**
Cofnod 6 (b) Aelodaeth y Pwyllgor - Rhoddir cadarnhad ynghylch presenoldeb Anna Uruska fel y cynrychiolydd Catholig yn dilyn y cyfarfod oherwydd dryswch gan y Clerc ynglŷn â'i phresenoldeb a'i chyfeiriad e-bost. Bydd hi'n trafod hyn ymhellach gydag Alwen Roberts a oedd wedi trafod aelodaeth Ms Uruska ar y pwyllgor yn wreiddiol.

**5. Ystyried y materion canlynol:**
**(a) Y diweddaraf yn lleol a chenedlaethol – Mary Davies**
Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion, gyflwyniad i'r Aelodau o ran Adolygu cyfrifoldebau a'r diweddaraf.

- Cyfrifoldebau Lleol
- Rôl eang CYSAG
- Dyletswyddau CYSAG
- Rolau a chyfrifoldebau
- Datblygiadau Cenedlaethol
- Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Newydd i Gymru
- Fframwaith Addysg Grefyddol
- Adroddiad Blynyddol

Ystyriwyd yn fanwl Adroddiad Blynyddol drafft 2019-20 fel y'i cyflwynwyd. Ar ôl trafod CYTUNWYD i:
(i) gywiro'r teitlau anghywir a roddwyd yn yr adroddiad ar gyfer sawl Aelod, fel y trafodwyd;
(ii) gwahodd y Parchedig Wyn Thomas neu'r Parchedig Melda Grantham, ar ran yr Undodiaid, i ymuno â'r pwyllgor fel Aelod Cyfetholedig;
(iii) gwahodd Mr Talat Chaudhri i ymuno fel Aelod Cyfetholedig gan gynrychioli'r ffydd Fwslimaidd; a
(iv) diwygio'r adroddiad gyda chywiriadau yn (i) a'i ddosbarthu i'r Aelodau drwy e-bost er mwyn ei ystyried ymhellach ac i gael adborth. Fe'i dychwelir i'r Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion o fewn wythnos i'r e-bost hwnnw.

**(b) Denu disgyblion i astudio Addysg Grefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch**
Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar ddenu disgyblion i astudio Addysg Grefyddol ar lefel TGAU a Safon Uwch.

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys a'r ffyrdd ysbrydoledig o annog disgyblion i astudio'r pwnc. Hefyd rhoddwyd y diweddaraf am y sefyllfa ynghylch canlyniadau arfaethedig TGAU a Safon Uwch ar gyfer yr haf.

Hefyd mynegwyd pryderon gan Aelodau ynghylch iechyd meddwl disgyblion yn ystod y cyfnod anodd hwn. Adroddwyd bod gan bob ysgol weithdrefnau cryf ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn; y cysylltir yn rheolaidd â phob disgybl a bod gwasanaeth cwnsela ar gael hefyd.

**6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Cytunwyd y byddai dyddiad y cyfarfod nesaf - yn yr Haf - yn cael ei drefnu yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd y byddai cyfarfod cyffredin o'r CYSAG yn cael ei drefnu ynghyd â chyfarfod a fydd ond yn trafod Maes Llafur Cytunedig newydd Ceredigion.

**7. Unrhyw fater arall**
Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr adnoddau Addysg Grefyddol sydd ar gael yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Sir Ceredigion i dynnu allan o bartneriaeth ERW.

Rhoddwyd gwybod y cytunwyd, ar ôl craffu, fod cael yr adnoddau hyn o ffynhonnell arall yn well yn ariannol na thrwy ERW.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol